Rhif: WG27617

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Hyrwyddo cadwraeth Gwyddau Talcenwyn yng Nghymru

## Opsiwn gwaharddiad statudol ar saethu

Dyddiad cyhoeddi: 11 Ionawr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 7 Mawrth 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Diben yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd safbwyntiau ar wahanol opsiynau i osod gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau Talcenwyn yng Nghymru drwy gydol y flwyddyn (gan gynnwys yn ystod 'y tymor agored'), ac opsiwn i barhau i gefnogi'r gwaharddiad gwirfoddol presennol ar saethu.<br><br>Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2013 ar argymhellion tebyg. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, penderfynodd Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd Cymru ar y pryd yn erbyn cyflwyno gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau Talcenwyn yng Nghymru.<br><br>Yn sgil dirywiad byd-eang parhaus yn y boblogaeth nad yw'n bridio o'r adar hyn, ac yn arbennig y perygl i Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las, mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn gwahodd safbwyntiau er mwyn llywio'r camau gweithredu gorau y gellir eu rhoi ar waith yng Nghymru i helpu i amddiffyn yr aderyn eiconig hwn. |
| **Sut i ymateb** | Gallwch gyflwyno ymatebion ar ffurflen ar-lein sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:<br><br>http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/conservation-white-fronted-geese-in-wales/?lang=cy<br><br>Trwy'r e-bost: natureconservation@wales.gsi.gov.uk<br><br>Trwy Post:<br>Cangen Bioamrywiaeth a Chadwraeth Natur<br>Llywodraeth Cymru<br>Rhodfa Padarn<br>Llanbadarn Fawr<br>Aberystwyth<br>SY23 3UR |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Cangen Bioamrywiaeth a Chadwraeth Natur<br>Llywodraeth Cymru<br>Rhodfa Padarn<br>Llanbadarn Fawr<br>Aberystwyth<br>SY23 3UR<br><br>e-bost: natureconservation@wales.gsi.gov.uk<br><br>rhif ffôn: 0300 062 2253 |

**Diogelu data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Statws poblogaeth Gwyddau Talcenwyn yn y DU ac yng Nghymru

1. Mae dau fath o Ŵydd Dalcenwyn (*Anser albifrons*) yn mudo i'r DU yn ystod y gaeaf: Gwyddau Talcenwyn Ewrop (*Anser albifrons albifrons)* a Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las (*Anser albifrons flavirostris*).

2. Mae Gwyddau Ewrop yn bridio yn Rwsia'r Arctig ac yn mudo ar draws dwyrain Ewrop i dreulio'r gaeaf yn ne Lloegr a Chymru. Mae Gwyddau'r Ynys Las yn bridio yng ngorllewin yr Ynys Las ac yn mudo drwy Wlad yr Iâ i aeafu mewn nifer fach o gynefinoedd traddodiadol yn Iwerddon, yr Alban, Lloegr a Chymru.

3. Er bod statws poblogaeth y ddwy rywogaeth yn wahanol iawn, a Gwyddau Ewrop yn llawer mwy niferus, rhestrir Gwyddau Talcenwyn fel rhywogaeth 'dan ddim bygythiad' yn Rhestr Goch yr IUCN (yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur) o Rywogaethau dan Fygythiad[1]. Ni chyflawnir asesiadau rhestr goch o isrywogaethau fel mater o drefn er y cynhaliwyd gwerthusiad ar wahân[2] o Wyddau'r Ynys Las yn 2007 ac aseswyd bod Gwyddau'r Ynys Las 'mewn perygl'.

4. Yn 2015, am y tro cyntaf ers 1985, amcangyfrifir[3] bod poblogaeth y byd o Wyddau'r Ynys Las wedi disgyn islaw 20,000 o adar.

5. Y mis Rhagfyr hwn, ym mhedwerydd adroddiad Adar o Bryder Cadwraethol[4] mae Gwyddau Talcenwyn wedi'u hychwanegu at y 'Rhestr Goch' am y tro cyntaf ers dechrau cofnodi yn 1996 oherwydd y dirywiad yn y boblogaeth nad yw'n bridio.

6. Mae'r DU yn bwysig ar gyfer Gwyddau'r Ynys Las. Yn y DU, gwelir y nifer fwyaf o'r adar hyn yng Ngweriniaeth Iwerddon a'r Alban er bod niferoedd bach i'w gweld yn Lloegr a chanolbarth Cymru. Er ei bod yn fach, mae'r boblogaeth o Wyddau'r Ynys Las sy'n gaeafu yng Nghymru yn allweddol i gynnal dosbarthiad cenedlaethol (a rhyngwladol) y rhywogaeth.

7. Yr unig safle gaeafu sydd ar ôl i Wyddau'r Ynys Las yng Nghymru yw aber afon Dyfi. Dyma'r safle gaeafu mwyaf deheuol ar gyfer Gwyddau'r Ynys Las yn y DU. Mae wedi'i dynodi'n Ardal Gwarchodaeth Arbennig Ewropeaidd yn benodol oherwydd ei phoblogaeth o Wyddau'r Ynys Las; mae hefyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Gwarchodfa Natur Genedlaethol.

## Ymgynghoriad 2013

8. Yn 2013, cynhaliodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Cymru ar y pryd ymgynghoriad ar gynnig i gyflwyno gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau'r Ynys Las a Gwyddau Ewrop ledled Cymru.

9. Daeth cyfanswm o 130 o sylwadau i law dros gyfnod yr ymgynghoriad. Roedd nifer o'r rhain yn ymatebion brawddeg neu ddwy o hyd yn datgan barn yn fyr dros neu yn erbyn

[1] http://www.iucnredlist.org/
[2] http://monitoring.wwt.org.uk/wp-content/uploads/2013/08/Boertmann2007.pdf
[3] http://monitoring.wwt.org.uk/wp-content/uploads/2015/11/Greenland-White-fronted-Goose-Study-report-2014-15.pdf
[4] Eaton, M.A., Aebischer, N.J., Brown, A.F., Hearn, R.D., Lock, L., Musgrove, A.J., Noble, D.G., Stroud, D.A. & Gregory, R.D. 2015. Birds of Conservation Concern 4: the population status of birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108: 708-746.

gwaharddiad ar saethu. Roedd 34% o blaid cyflwyno gwaharddiad statudol, ac roedd mwyafrif, 66%, yn erbyn cyflwyno gwaharddiad statudol.

10. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, penderfynodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar y pryd yn erbyn gosod gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau Talcenwyn yng Nghymru. Penderfynodd y dylid darparu gwarchodaeth ychwanegol i Wyddau'r Ynys Las yng Nghymru:
*by working with the British Association of Shooting and Conservation (BASC) and other relevant organisations to expand the coverage of a voluntary moratorium on the shooting of GWfG to include all Welsh wildfowling organisations on GWfG flight-paths north of the Dyfi; and to continue work to extend that voluntary coverage more widely across Wales.*

11. Nid oedd ei benderfyniad yn atal Llywodraeth Cymru rhag bwrw ymlaen â'r opsiwn o waharddiad statudol yn nes ymlaen pe ystyrid bod hynny'n ddymunol.

**Y safbwynt cyfredol o ran saethu Gwyddau'r Ynys Las yn y DU ac yng Nghymru**

12. Yng Nghymru a Lloegr mae'n anghyfreithlon aethu Gwyddau Talcenwyn yn ystod y tymor caeedig (1 Chwefror – 31 Awst, yn, neu dros, unrhyw ardal uwchlaw'r marc penllanw) ond nid ar adegau eraill o'r flwyddyn.

13. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon mae Gwyddau Talcenwyn wedi'u gwarchod yn llawn ar bob adeg o'r flwyddyn gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ac (yng Ngogledd Iwerddon) gan Orchymyn Bywyd Gwyllt (Gogledd Iwerddon) 1985. Ceir gwarchodaeth debyg yng Ngweriniaeth Iwerddon.

14. Er nad oes gwarchodaeth statudol gyfredol ar gyfer Gwyddau Talcenwyn yng Nghymru rhwng mis Medi a mis Chwefror, ceir gwaharddiad gwirfoddol ar saethu unrhyw wyddau gwyllt (ac eithrio Gwyddau Canada) yn aber afon Dyfi ar dir y mae gan glybiau hela adar dŵr lleol hawliau i saethu drosto. Mae'r gwaharddiad gwirfoddol hwn wedi gweithredu'n ddi-dor ers dros 40 mlynedd ac mae pawb yn cydnabod ei fod wedi bod yn allweddol i warchod Gwyddau'r Ynys Las yno.

15. Yn ystod 2014, gweithiodd Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC) gyda chlybiau hela adar dŵr yn Sir Benfro ac ar draws gogledd-orllewin Cymru i gyflwyno gwaharddiadau gwirfoddol tebyg ar saethu Gwyddau'r Ynys Las ar dir y mae gan y clybiau hela adar dŵr hawliau penodol i saethu drosto.

16. Cyn ymestyn y gwaharddiad gwirfoddol yn y ffordd hon, câi Gwyddau'r Ynys Las eu saethu mewn rhannau eraill o Gymru, yn fwyaf arbennig dros Ynys Môn. Dengys data fod 29 o Wyddau'r Ynys Las wedi'u saethu yn y cyfnod rhwng 1988/99 a 2008/09[5]. Nid oes gennym unrhyw gofnodion na thystiolaeth fod Gwyddau'r Ynys Las wedi'u saethu yng Nghymru ers 2008/09. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael felly'n dangos cydymffurfiaeth â'r gwaharddiad gwirfoddol ar saethu Gwyddau'r Ynys Las yng Nghymru ac nad yw Gwyddau'r Ynys Las yn cael eu saethu yng Nghymru mwyach. Fodd bynnag, fel gwaharddiad gwirfoddol, nid oes unrhyw ddull o orfodi'r gwaharddiad yn gyfreithiol. Yn ogystal, yn absenoldeb gwaharddiad statudol ar saethu, mae'r posibilrwydd o saethu (yn enwedig y tu allan i dir y mae gan glybiau hela adar dŵr hawliau i saethu drosto) yn parhau i fod yn risg.

[5] Data BASC a Chyngor Cefn Gwlad Cymru – ffynhonnell: nodyn briffio'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (Ionawr 2012)

**Pam mae angen adolygiad**

17. Mae poblogaeth y byd o Wyddau'r Ynys Las wedi gostwng oddeutu 40% ers diwedd y 1990au. Credir mai un prif reswm dros y dirywiad yw amodau bridio gwael yn yr Ynys Las. Mae monitro blynyddol yn dangos bod niferoedd Gwyddau'r Ynys Las yn parhau i ddirywio drwy'r DU, a chofnodwyd dirywiad o 36% rhwng 2003 a 2015[6]. Mae poblogaeth aber afon Dyfi o Wyddau'r Ynys Las wedi dirywio 83% rhwng 1990 a 2014/15, sef dirywiad blynyddol o 3.5%[7].

18. Y gaeaf diwethaf (2014/15) cyfrifwyd 26 o Wyddau'r Ynys Las ar aber afon Dyfi. Dyma'r cyfrif isaf a gofnodwyd ac felly mae'n peri gofid. Ystyrir y gallai'r rhywogaeth fod ar fin diflannu yng Nghymru.

19. O ystyried y dirywiad hirdymor yn niferoedd Gwyddau'r Ynys Las yn aber afon Dyfi mae unrhyw farwolaethau ymhlith Gwyddau'r Ynys Las yng Nghymru mewn perygl o effeithio'n ddifrifol ar boblogaeth yr aderyn yng Nghymru, o ystyried y niferoedd isel iawn a geir yma.

20. Yr hyn sy'n berthnasol yma yw'r cyd-destun cyfreithiol a osodwyd gan Gyfarwyddeb Adar yr UE; a Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Cytuniad rhynglywodraethol yw Cytundeb Adar Dŵr Affrica-Ewrasia (AEWA), gyda'r DU yn barti contractio, ac mae'n bwysig wrth ystyried yr angen am adolygiad.

<u>Cyfarwyddeb Adar yr UE (2009/147/EEC)</u>

21. Mae gwarchodaeth Cyfarwyddeb Adar yr UE yn cwmpasu Gwyddau'r Ynys Las yng Nghymru. Ar yr adeg y cyflwynwyd Cyfarwyddeb Adar y DU (2009), mae'n amlwg o'r testun fod yr UE yn ystyried bod poblogaeth Gwyddau'r Ynys Las yn fawr a'i chyfradd atgenhedlu yn uchel ac yn rheswm dros ganiatáu hela Gwyddau'r Ynys Las. Os yw hela'n digwydd, rhaid iddo beidio â pheryglu ymdrechion cadwraeth. Hefyd, rhaid i Aelod-wladwriaethau gymryd y camau angenrheidiol i gynnal poblogaeth Gwyddau'r Ynys Las ar lefel sy'n cyd-fynd yn benodol â gofynion ecolegol, gwyddonol a diwylliannol.

22. Er na cheir tystiolaeth fod hela'n digwydd, mae Erthygl 2 yn dal i'w gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gymryd camau angenrheidiol i gynnal poblogaeth Gwyddau'r Ynys Las ar lefel sy'n cyd-fynd yn benodol â gofynion ecolegol, gwyddonol a diwylliannol. Gan fod poblogaeth Gwyddau'r Ynys Las ar ei lefel isaf, mae posibilrwydd gwirioneddol y gellid dadlau bod hela y tu allan i'r tymor caeedig (nas gwaherddir gan y gyfraith) yn bosibilrwydd real ac o'r herwydd, gwaharddiad cyfreithiol yn unig ar hela Gwyddau'r Ynys Las a fyddai'n "gam angenrheidiol" o'r fath.

23. Mae canllaw deongliadol Comisiwn yr UE ar hela cynaliadwy o dan y Gyfarwyddeb Adar yn datgan "*in the context of hunting wise use clearly implies sustainable consumptive use with an emphasis on maintaining populations of species at a favourable conservation status.*" Daeth gweithdy rhyngwladol AEWA ar Wyddau'r Ynys Las i'r casgliad na ellid hela Gwyddau'r Ynys Las ar hyn o bryd yn unol ag egwyddorion defnydd doeth (ac felly ar sail gynaliadwy). Gellid dadlau felly fod y gyfraith bresennol (sy'n caniatáu hela y tu allan i'r tymor caeedig) yn methu â bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Adar.

---

[6] http://monitoring.wwt.org.uk/our-work/goose-swan-monitoring-programme/species-accounts/greenland-white-fronted-goose/
[7] Cyfoeth Naturiol Cymru

24. Yn ogystal, mae Gwyddau'r Ynys Las yn rhywogaeth a gaiff sylw yn Atodiad 1 y Gyfarwyddeb, ac o'r herwydd, maent yn ddarostyngedig i Erthygl 4, sy'n ei gwneud yn ofynnol i rywogaethau o'r fath fod yn ddarostyngedig i fesurau cadwraeth arbennig yn ymwneud â'u cynefin, er mwyn sicrhau eu bod yn goroesi ac yn atgenhedlu yn ardal eu dosbarthiad. Rhaid ystyried nifer o ffactorau mewn perthynas â'r mesurau sydd eu hangen, ac mae'r rhain yn cynnwys gofyniad i ystyried tueddiadau ac amrywiadau yn y lefelau poblogaeth.

25. Byddai gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau'r Ynys Las yn cael gwared ar unrhyw risg bosibl o her i Lywodraeth Cymru gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Adar yn sgil peidio â bod wedi cymryd camau i sicrhau nad yw hela yn peryglu ymdrechion cadwraeth. Fodd bynnag, mae hela adar dŵr yn cael ei dderbyn yn eang yn yr UE ar yr amod nad yw'n niweidio statws cadwraeth rhywogaeth. Gellid dadlau bod cefnogi gwaharddiad gwirfoddol effeithiol yn cyflawni'r gofyniad i gymryd camau rhesymol.

<u>Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006</u>

26. Mae adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn rhestru'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd o fwyaf o bwys yng Nghymru. Mae Gwyddau'r Ynys Las wedi'u cynnwys ar y rhestr a gyhoeddwyd o dan adran 42. Mae adran 42(3) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru '*take such steps as appear to the [Welsh Ministers] to be reasonably practicable to further the conservation of the living organisms … included in any list published [under S42]'.*

27. Byddai gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau'r Ynys Las yn cael gwared ar unrhyw risg bosibl o her i Lywodraeth Cymru nad yw wedi cymryd camau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn rhesymol yn ymarferol i hybu cadwraeth Gwyddau'r Ynys Las yng Nghymru. Ond yn sgil y penderfyniad blaenorol i ysgrifennu at BASC i ymestyn cyrhaeddiad y moratoriwm gwirfoddol cyfredol, gellid dadlau bod Gweinidogion Cymru eisoes wedi cymryd camau sy'n rhesymol yn ymarferol i hybu cadwraeth Gwyddau'r Ynys Las yng Nghymru.

<u>Cytundeb Adar Dŵr Affrica-Ewrasia (AEWA).</u>

28. Cytuniad rhynglywodraethol yw Cytundeb Adar Dŵr Affrica-Ewrasia (AEWA), gyda'r DU yn barti contractio, sydd wedi ymrwymo i gadwraeth adar dŵr mudol a'u cynefinoedd ar draws Affrica, Ewrop, y Dwyrain Canol, Asia Ganol, yr Ynys Las ac Archipelago Canada.

29. Ac eithrio Cymru a Lloegr, mae gan yr holl wledydd sy'n bartïon contractio yn AEWA, ac sydd o fewn gwladwriaethau cynefin Gwyddau'r Ynys Las, waharddiadau statudol ar saethu Gwyddau'r Ynys Las.

30. Mewn perthynas â hela, mae'r AEWA yn datgan (yng nghyd-destun Gwyddau'r Ynys Las): *"hunting may continue on a sustainable use basis where hunting of such populations is a long-established cultural practice. This sustainable use shall be conducted within the framework of special provisions of a Species Action Plan (SAP) at the appropriate international level".*

31. Trafodwyd y mater hwn yng ngweithdy rhyngwladol AEWA yn 2009, a ddaeth i'r casgliad (mewn perthynas â Gwyddau'r Ynys Las): "*With low annual productivity it is critically important to reduce sources of mortality. This will conserve the very small numbers of*

*successful breeders that produce subsequent generations and help restore the population to former levels. To this end, the workshop concluded that hunting cannot currently be undertaken on a sustainable basis and any kill would exacerbate the current unfavourable conservation status of the population".*

32. Mabwysiadodd gweithgor AEWA y Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhywogaeth Gwyddau'r Ynys Las ym mis Mai 2012. Mae'n datgan y dylai'r partïon contractio (sy'n wladwriaethau cynefin rhywogaethau adar dŵr mudol yn cynnwys Gwyddau'r Ynys Las) ymdrechu i wneud y canlynol:

- gwarchod, a lle y bo'n ddichonadwy ac yn briodol, adfer cynefinoedd y rhywogaethau sydd o bwys drwy ddileu'r perygl y bydd y rhywogaeth yn diflannu;
- atal, dileu, cywiro, neu leihau, fel y bo'n briodol, effeithiau niweidiol neu rwystrau sy'n rhwystro'n ddifrifol neu'n atal y rhywogaeth rhag mudo; ac
- i'r graddau sy'n ddichonadwy ac yn briodol, atal, lleihau neu reoli ffactorau sy'n peryglu neu sy'n debygol o beryglu'r rhywogaeth ymhellach, gan gynnwys sicrhau rheolaeth lem ar gyflwyno, neu reoli neu ddileu, rhywogaethau egsotig sydd eisoes wedi'u cyflwyno.

33. Un o brif flaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhywogaeth Gwyddau'r Ynys Las yw lleihau achosion marwolaeth ychwanegol; mae Paragraff 69 yn datgan: *Take all possible steps to eliminate avoidable sources of mortality and disturbance, particularly shooting and collisions with man-made structures*. Mewn perthynas â lleihau achosion marwolaeth sy'n gysylltiedig â hela Gwyddau'r Ynys Las, mae'r cynllun gweithredu yn argymell y dylid cyflwyno gwarchodaeth rhag hela neu ei chynnal drwy gydol y flwyddyn tra bo statws cadwraeth y boblogaeth yn anffafriol..

34. Gellid dadlau bod yr ymadrodd '*all possible steps*' yn cynnwys y defnydd o ddeddfwriaeth i osod gwaharddiad statudol ar saethu. Fodd bynnag, nid yw AEWA yn manylu ynglŷn â'r math o gamau gweithredu y mae'n rhaid i Lywodraethau eu rhoi ar waith i fodloni ei ofynion. Mae gweithredu moratoriwm gwirfoddol ledled Cymru, a gwaharddiad statudol, wedi cael eu hystyried yn fodd o gyflawni'r gofynion hyn.

35. Gellid dadlau hefyd nad yw saethu Gwyddau'r Ynys Las yng Nghymru yn achos marwolaeth ac aflonyddwch i'r rhywogaeth honno ar hyn o bryd, er bod saethu Gwyddau'r Ynys Las yn parhau'n risg yn absenoldeb gwaharddiad statudol ar saethu yng Nghymru.

36. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhywogaeth yn cynnwys trothwyon rhybuddio. Mae'r trothwyon hyn, os cânt eu cyrraedd, yn ei gwneud yn ofynnol i bartïon sy'n rhan o AEWA i ailymgynnull er mwyn ailystyried camau gweithredu a gyflawnwyd gan y partïon, a chytuno ar fesurau newydd.

37. Trothwy AEWA yng nghyd-destun ardal ddosbarthiad y DU yw maint poblogaeth o 20,000. Fel y nodwn uchod, amcangyfrifir[8] bod poblogaeth y byd o Wyddau'r Ynys Las yn 2015 wedi disgyn islaw 20,000 o adar.

38. Byddai gwaharddiad statudol ar saethu yn cael gwared ar y risg o her nad oedd Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio ag AEWA drwy beidio â bod wedi cymryd: "*all possible steps" to eliminate avoidable sources of mortality and disturbance, particularly shooting and collisions with man-made structures".* Fodd bynnag, mae AEWA yn derbyn hela adar dŵr lle nad yw'n niweidio cadwraeth rhywogaeth; mae BASC yn cyfrannu'n weithredol tuag at waith AEWA a thuag at y cytundeb.

---

[8] http://monitoring.wwt.org.uk/wp-content/uploads/2015/11/Greenland-White-fronted-Goose-Study-report-2014-15.pdf

39. Byddai gwaharddiad statudol ar saethu hefyd yn dileu unrhyw risg y byddai eraill sy'n rhan o AEWA yn beirniadu Llywodraeth Cymru pe bai camau gweithredu AEWA yn cael eu hadolygu yn sgil cyrraedd y trothwy o 20,000 o Wyddau'r Ynys Las.

**Opsiynau ar gyfer ymgynghori**

40. Mae Gwyddau Talcenwyn wedi'u rhestru yn Rhan 1 o Atodlen 2 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel adar y gellid eu lladd neu eu cymryd y tu allan i dymor caeedig. Mae adran 22 o'r Ddeddf honno yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu neu dynnu unrhyw aderyn o'r Atodlen honno.

41. Er gwaethaf gwahaniaethau sylweddol yn eu lefelau poblogaeth byd-eang (mae Gwyddau Ewrop yn llawer iawn mwy niferus) roedd ymgynghoriad 2013 yn gwahodd safbwyntiau ar y cynnig i gyflwyno gwaharddiad statudol ar saethu'r ddwy isrywogaeth o Wyddau Talcenwyn (Gwyddau Ewrop a Gwyddau'r Ynys Las).

42. Er mai ardaloedd deheuol a dwyreiniol o Gymru at ei gilydd y mae Gwyddau Ewrop yn hedfan drostynt ac yn gaeafu ynddynt, mae'r risg o gamgymryd yn aros (h.y. rhywun yn saethu Gŵydd yr Ynys Las drwy gamgymeriad). Gallai risg o'r fath danseilio unrhyw fudd cadwraethol o waharddiad statudol ar saethu rhywogaeth yr Ynys Las yn unig.

43. Er mwyn cadw hyn mewn cof, mae'r opsiynau a gyflwynwyd isod:
    - Yn cynnwys Gwyddau'r Ynys Las a Gwyddau Ewrop; ac
    - Yn gwahaniaethu rhwng yr ardaloedd gwahanol o Gymru a ddefnyddir gan Wyddau'r Ynys Las a Gwyddau Ewrop;

44. Dyma'r opsiynau rydym yn ymgynghori yn eu cylch:

- **Opsiwn 1**: Gwaharddiad statudol ar saethu pob Gŵydd Dalcenwyn (Gwyddau Ewrop a Gwyddau'r Ynys Las) ledled Cymru gyfan a thrwy gydol y flwyddyn;

- **Opsiwn 2**: Gwaharddiad statudol ar saethu pob Gŵydd Dalcenwyn (Gwyddau Ewrop a Gwyddau'r Ynys Las) mewn ardaloedd penodol o Gymru yn unig, ardaloedd a ddefnyddir gan Wyddau'r Ynys Las, drwy gydol y flwyddyn;

- **Opsiwn 3**: Gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau'r Ynys Las ledled Cymru gyfan drwy gydol y flwyddyn;

- **Opsiwn 4**: Gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau'r Ynys Las mewn ardaloedd penodol o Gymru yn unig, ardaloedd a ddefnyddir gan Wyddau'r Ynys Las, drwy gydol y flwyddyn;

- **Opsiwn 5**: Cynnal y gwaharddiad gwirfoddol anstatudol ar saethu Gwyddau'r Ynys Las yng Nghymru dros dir y mae gan glybiau hela adar dŵr hawliau penodol i saethu drosto.

| **Opsiwn** | **Disgrifiad a materion sy'n codi** |
|---|---|
| **Opsiwn 1**: Gwaharddiad statudol ar saethu pob Gŵydd Dalcenwyn (Gwyddau Ewrop a | Byddai'r opsiwn hwn yn darparu sicrwydd ac eglurder ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru. Byddai'n rhoi gwarchodaeth statudol i Wyddau'r Ynys Las rhag cael eu saethu mewn unrhyw ran |

| | |
|---|---|
| Gwyddau'r Ynys Las) ledled Cymru gyfan a thrwy gydol y flwyddyn; | o Gymru. Byddai'n rhoi gwarchodaeth debyg rhag saethu Gwyddau Ewrop mewn unrhyw ran o Gymru.<br><br>Gan fod Gwyddau'r Ynys Las a Gwyddau Ewrop yn hedfan dros, ac yn gaeafu mewn rhannau gwahanol o Gymru at ei gilydd, mae'n bosibl y byddai rhai rhanddeiliaid yn ystyried gwahardd y ddwy rywogaeth drwy Gymru gyfan yn ddiangen ac yn annheg. |
| **Opsiwn 2**: Gwaharddiad statudol ar saethu pob Gŵydd Dalcenwyn (Gwyddau Ewrop a Gwyddau'r Ynys Las) mewn ardaloedd penodol o Gymru yn unig, ardaloedd a ddefnyddir gan Wyddau'r Ynys Las, drwy gydol y flwyddyn; | Gan fod Gwyddau'r Ynys Las a Gwyddau Ewrop yn gaeafu ac yn hedfan dros wahanol rannau o Gymru at ei gilydd, efallai na fydd angen gosod gwaharddiad statudol ar saethu drwy Gymru gyfan. O dan yr opsiwn hwn, byddai deddfwriaeth yn pennu'r ardaloedd o Gymru lle byddai saethu Gwyddau Ewrop a Gwyddau'r Ynys Las yn anghyfreithlon. Byddai'r ardaloedd hyn yn cyd-fynd â llwybrau hedfan ac ardaloedd gaeafu Gwyddau'r Ynys Las. Mewn rhannau eraill o Gymru, nad yw Gwyddau'r Ynys Las yn hedfan drostynt nac yn gaeafu ynddynt, byddai saethu Gwyddau Talcenwyn yn parhau'n gyfreithlon.<br><br>O dan yr opsiwn hwn, gellid gwahardd saethu mewn ardaloedd penodol a enwir (megis Ynys Môn) neu ardaloedd (megis aber afon Dyfi) yng Nghymru. Byddai angen darparu sicrwydd ac eglurder ynghylch yr ardaloedd hyn. Gellid gwneud hyn drwy:<br>• gyfeirio'n syml at yr ardal wrth ei henw (h.y. sir Ynys Môn);<br>• drwy gyfeirio at fap adnabyddadwy wedi'i leoli yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, ac ar gael drwy ofyn amdano; neu<br>• drwy gyfeirio at gyfesurynnau map neu nodwedd weladwy ar y dirwedd megis rheilffordd (gan fod ffiniau gweinyddol yn gallu newid dros amser).<br><br>Byddai angen adolygu unrhyw fapiau yn rheolaidd, yn flynyddol o bosibl, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn gywir â'r ardaloedd a ddefnyddir gan Wyddau'r Ynys Las. Efallai y bydd angen cynhyrchu adolygiadau o'r mapiau o bryd i'w gilydd. |
| **Opsiwn 3**: Gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau'r Ynys Las ledled Cymru gyfan drwy gydol y flwyddyn; | Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi gwarchodaeth statudol i Wyddau'r Ynys Las rhag cael eu saethu mewn unrhyw ran o Gymru. Yn wahanol i opsiwn 1, byddai'n caniatáu saethu Gwyddau Ewrop mewn unrhyw ran o Gymru y tu allan i'r tymor caeedig. |

| | |
|---|---|
| **Opsiwn 4**: Gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau'r Ynys Las mewn ardaloedd penodol o Gymru yn unig, ardaloedd a ddefnyddir gan Wyddau'r Ynys Las, drwy gydol y flwyddyn; | O dan yr opsiwn hwn, byddai deddfwriaeth yn pennu'r ardaloedd o Gymru lle byddai saethu Gwyddau'r Ynys Las yn anghyfreithlon. Byddai'r ardaloedd hyn yn cyd-fynd â llwybrau hedfan ac ardaloedd gaeafu Gwyddau'r Ynys Las. Mewn rhannau eraill o Gymru, nad yw Gwyddau'r Ynys Las yn hedfan drostynt nac yn eu defnyddio, byddai saethu Gwyddau'r Ynys Las yn parhau i fod yn gyfreithlon. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn caniatáu saethu Gwyddau Ewrop mewn unrhyw ran o Gymru y tu allan i'r tymor caeedig.<br><br>Fel gydag opsiwn 2, o dan yr opsiwn hwn gellid gwahardd saethu mewn rhai siroedd penodol (megis Ynys Môn) neu ardaloedd o Gymru, neu drwy gyfeirio at nodweddion. Gellid cyfeirio at fap adnabyddadwy, wedi'i leoli yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, ac a fyddai ar gael drwy ofyn amdano. |
| **Opsiwn 5**: Cynnal y gwaharddiad gwirfoddol anstatudol ar saethu Gwyddau'r Ynys Las yng Nghymru dros dir y mae gan glybiau hela adar dŵr hawliau penodol i saethu drosto. | Mae'r opsiwn hwn yn cynnal y sefyllfa gyfredol.<br><br>Fel gwaharddiad gwirfoddol, nid oes unrhyw fodd o sicrhau gorfodaeth gyfreithlon. Yn ogystal, yn absenoldeb gwaharddiad statudol ar saethu, mae'r posibilrwydd o saethu'n parhau i fod yn risg. Fodd bynnag, byddai'n cynnal ewyllys da a chydweithrediad BASC a chlybiau hela adar dŵr wrth blismona'r gwaharddiad gwirfoddol presennol ar dir y mae gan y clybiau hela adar dŵr hawliau penodol i saethu drosto, ac i gyflawni mesurau cadwraeth i gefnogi Gwyddau'r Ynys Las. |

<u>Mesurau cadwraeth eraill</u>

45. I helpu i sicrhau statws cadwraethol Gwyddau'r Ynys Las yng Nghymru, gellid dadlau y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i fesurau cadwraethol eraill, yn lle bwrw ymlaen â gwaharddiad statudol ar saethu, gan gynnwys;
    - cyflawni gwaith ymchwil ar y rhesymau dros ddirywiad parhaus Gwyddau'r Ynys Las ar aber afon Dyfi;
    - rhoi camau ar waith i leihau aflonyddwch i Wyddau'r Ynys Las ar aber afon Dyfi; ac
    - ymestyn gwasgariad cynefin addas ar gyfer Gwyddau'r Ynys Las yn Nyffryn Dyfi, ac mewn mannau eraill yng Nghymru, yn fwy eang.

46. Byddem yn croesawu eich safbwyntiau ar y flaenoriaeth y dylid ei rhoi i fesurau cadwraeth eraill i helpu i hyrwyddo cadwraeth Gwyddau'r Ynys Las yng Nghymru.